EISTEDDFOD GARNDOLBENMAEN A'R CYLCH 2019

Cynhaliwyd Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch yn Neuadd y Pentref, Garndolbenmaen ddydd Sadwrn 26 Ionawr 2019. Cafwyd dau gyfarfod llewyrchus a nifer dda o gystadleuwyr, yn enwedig yng nghyfarfod y prynhawn.

Y beirniaid oedd: Cerdd a Cherdd Dant – Ann Atkinson, Corwen; Adrodd/Llefaru, Llên a Barddoniaeth – Beryl H. Griffith, Y Bala; Arlunio – Eirian, Pwlldefaid. Y cyfeilyddion oedd Pat Jones, Chwilog a Tudur P. Jones, Tywyn, Meirionnydd. Yr arweinyddion oedd Nesta Jones, Ann Pierce Jones a Bethan Dobson.

Swyddogion y pwyllgor yw: Llywydd – Gwen Owen; Is-lywydd – Nerys Ll. Thomas; Ysgrifennydd – Rose A. Jones; Is-ysgrifennydd – Bethan Dobson; Trysorydd – Richard Parry; Is-drysorydd – Carolyn Jones.

Cadeirydd yr Eisteddfod eleni oedd Helen Williams, Y Groeslon.

Rhannwyd y wobr arbennig o £25 am yr adroddiad gorau yng nghyfarfod y prynhawn rhwng Lea Mererid Roberts, Pwllheli a Sara Owens, Llanrug. Rhannwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan Gôr Meibion Dwyfor am y datganiad gorau yn yr adran gerdd yng nghyfarfod y prynhawn rhwng Lea Roberts a'r ddeuawd Nel Dafydd Evans, Cwm Pennant a Lowri Glain Roberts, Garndolbenmaen. Rhannwyd y wobr arbennig o £25 gan O. Gerallt Jones ac Alun Llwyd am y datganiad gorau yn adran Cerdd Dant y prynhawn er cof am eu tad, D. G. Jones (Selyf) rhwng Manon Grug Jones, Llangefni a'r ddeuawd Nel a Lowri.

Enillydd Tlws yr Ifanc oedd Ela Sion Parri, Aberdaron sy'n fyfyriwr yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Pwllheli. Derbyniodd Ela ganmoliaeth arbennig gan y beirniad am safon uchel ei stori fer a'i gallu celfydd i greu cymeriadau. Gwnaed y Tlws gan Deio Collwyn. Roedd Tlws yr Ifanc a Thocyn Llyfr yn rhoddedig gan Mr a Mrs E. Griffiths, Ynys Wen, Cwmystradllyn a Chwmni Peirianneg Sifil Gelli er cof am Tom Richards, Wern, Llanfrothen. Diolchir iddynt ac i bawb a gyfrannodd wobrau ac a gefnogodd yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd.